



POLISI DERBYN

Cylch Meithrin Y Felinheli

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn drwy y wybodaeth sydd i'w gael yn y llyfryn rhieni, copi o'r polisi ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu drwy ei ddarllen yn y ffeil bolisiau sydd yn cael ei gadw yn y Caban.

NOD

Ein nod ni yn cylch Caban Clyd Felinheli yw i gynnig gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg i bob plentyn o fewn yr oedran priodol, yn unol â'i bolisi derbyn.

EGWYDDOR

Mae croeso i bob plentyn sydd o fewn yr oedran priodol fynychu'r cylch, waeth beth fo'i anghenion, lliw, hil, iaith, crefydd, dosbarth cymdeithasol neu sefyllfa deuluol.

COD YMARFER

Bydd y cylch yn cydymffurfio â'r amodau cofrestru fel ag a nodir yn y Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 parthed oed y plant a'r nifer a ganiateir.

Bydd y pwyllgor yn mabwysiadu a gweithredu meini prawf derbyn addas ar gyfer y cylch. Fodd bynnag, wrth fabwysiadu'r meini prawf hyn bydd y Pwyllgor yn sicrhau nad yw yn mynd yn groes i'w bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae Caban Clyd yn derbyn plant fel y ganlyn -

Oedran – Oedran cychwyn yw 2½ mlwydd oed

Adegau Derbyn – Gaiff blentyn gychwyn unwaith mae'n ddwy a hanner, unrhyw adeg yn ystod y tymor/flwyddyn gyda threfniant a chaniatad yr Arweinydd, yn dilyn derbyn y ffurflen gofrestru priodol.

Dalgylch – Croeso i blant pentref Felinheli a'r dalgylch.

Dyddiad ac Amseroedd – Mae'r cylch ar agor 10:45 – 3:30 Dydd Llun i Ddydd Gwener yn ystod tymor ysgolion Gwynedd. Sesiwn i blant 2 a hanner hyd oedran ysgol 11 – 1 neu 1:30 – 3:30 Sesiwn i blant oed dosbarth meithrin (3+ oed cyn mis Medi) – 10:45 tan 1 neu 10:45 – 3:30

Mae'n ofynnol i rieni/gofalwyr gofrestru eu plentyn pan fydd yn dechrau yn y cylch trwy ddefnyddio ffurfleni cofrestru cylch.

Mae'r Pwyllgor yn annog rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid i sicrhau lle i'w plentyn ddigon ymlaen llaw, ac fe'u gwahoddir i ymweld â'r cylch gyda'u plentyn cyn y ddyddiad dechrau. Byddwn yn trefnu diwrnod agored/cofrestru mis Awst er mwyn annog rhieni/gofalwyr/Garchodwyr gofrestru mewn digon o bryd.



Ceidwi'r Pwyllgor yr hawl i wrthod cais rhiant/gofalwr/gwarcheidwad am le i blentyn nad yw'n cydymffurfio â'r amodau derbyn. Mewn achosion o'r fath, cyflwyni'r y rhesymau i'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.

Ni chaniateir mwy na 20 o blant mewn unrhyw sesiwn.